Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



*Lle i'w alw'n gartref*

# Cynllun Strategol Tai a Digartrefedd 2024-2027

www.npt.gov.uk

# Cynnwys

1. Rhagair ....................................................................................................3
2. Cyflwyniad ................................................................................................4
3. Y Sefyllfa Bresennol ...................................................................................4
4. Galw ........................................................................................................9
5. Heriau ....................................................................................................15
6. Egwyddorion Strategol ............................................................................18
7. Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer Gweithredu .............................................19

## 1. Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno'r Cynllun Strategol Tai a Digartrefedd tair blynedd newydd ar gyfer Castell-nedd Port Talbot.

Ni ellir diystyru pwysigrwydd cael cartref, ac roedd hyn yn amlycach nag erioed yn ystod yr ymateb i'r pandemig.

Rydym wedi wynebu heriau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond rydym hefyd wedi parhau i ddarparu gwasanaethau digartrefedd drwy gydol y cyfyngiadau symud, wedi ffurfio partneriaethau a grwpiau cymorth cymunedol newydd, ac wedi atgyfnerthu partneriaethau gwaith a oedd eisoes yn bodoli. Rydym yn dal yn ymrwymedig i weithio ochr yn ochr â'n partneriaid i wella bywydau ein trigolion.

Mae'r nodau a'r amcanion sy'n llywio'r strategaeth hon yn adlewyrchu'r angen i gymryd camau rhagweithiol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau ym maes tai sy'n effeithio ar ein cymunedau, ac yn tynnu sylw at y ffordd rydym yn bwriadu cydweithio i wella bywydau a chartrefi trigolion Castell-nedd Port Talbot.

Mae'r galw am dai o bob math o ddeiliadaeth yn fwy na'r cyflenwad ac mae costau tai yn cynyddu. Fodd bynnag, rydym bob amser yn chwilio am atebion arloesol i ddiwallu anghenion a chynyddu'r opsiynau sydd ar gael.

Rydym am fynd i'r afael â digartrefedd o bob math gan gynnwys cysgu allan, pobl sy'n cael eu cam-drin a'u niweidio gartref, a phobl sy'n byw mewn tai anfforddiadwy neu anfoddhaol.

Gall digartrefedd effeithio ar unrhyw un a gall yr effeithiau ar deuluoedd ac unigolion, yn ogystal â chymdeithas yn ei chyfanrwydd, fod yn ddinistriol, gan effeithio ar iechyd a llesiant, cyflogaeth ac addysg, a mwy.

Rydym yn awyddus i roi cymorth i bobl er mwyn iddynt allu cael lle i fyw sydd o ansawdd da a byw bywydau sy'n llawn urddas, boddhad a phwrpas.

Mae hyn hefyd yn gyfle i ddiolch i'r holl sefydliadau ac unigolion a fu'n gweithio gyda ni yn ystod y pandemig i helpu eraill.

Bydd y strategaeth yn llywio ein ffordd o weithredu dros y tair blynedd nesaf, ond byddwn yn ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i ymateb i anghenion ein cymunedau.

Er ein bod yn wynebu heriau, dyma ein cyfle i helpu i leihau ac atal digartrefedd a gwella ansawdd ac argaeledd tai ym mhob rhan o'r sir, fel y gallwn helpu pobl i ddod o hyd i le i'w alw'n gartref.

## 2. Cyflwyniad

Rydym am i holl ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot allu cael tai diogel a phriodol, ac mae'r Cynllun hwn yn nodi dull strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) o reoli'r heriau sy'n gysylltiedig â digartrefedd a thai fforddiadwy ledled y fwrdeistref.

Mae'r ddogfen hon yn ategu cynlluniau strategol eraill sydd eisoes yn cael eu datblygu, fel y Strategaeth Grant Tai Cymdeithasol a'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym. Hefyd, caiff ei defnyddio ochr yn ochr â'r Strategaeth Dai newydd, a fydd yn cael ei datblygu yn 2023. Mae'r Cynllun hefyd yn ategu amcanion a dogfennau strategol eraill y Cyngor, fel y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd sydd ar y gweill a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i ddiweddaru.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd syfrdanol yn nifer y bobl sy'n ddigartref a lleihad sydyn yn y gallu i gael tai fforddiadwy. Mae'r cysylltiadau rhwng y gallu i gael tai fforddiadwy cynaliadwy a digartrefedd yn golygu y bydd angen mynd i'r afael â'r ddau fater gyda'i gilydd er mwyn i ni allu atal digartrefedd a chreu cymunedau cydlynus yn llwyddiannus.

Mae ein Cynllun yn cynnwys datganiad clir o fwriad i gymryd camau a fydd yn sicrhau y gall holl bobl Castell-nedd Port Talbot gael tai fforddiadwy o ansawdd, a hynny'n gyflym, a bod ymyriadau digonol ar gael i atal a lleddfu digartrefedd.

## 3. Y Sefyllfa Bresennol

Ers COVID-19, mae'r galw am wasanaethau digartrefedd wedi cynyddu'n sylweddol gan arwain at fwy o ddefnydd o lety dros dro fel lleoliadau gwely a brecwast nag erioed o'r blaen. Mae'r gorddefnydd o lety dros dro a gorddibyniaeth ar leoliadau gwely a brecwast i gefnogi ein poblogaeth ddigartref yn anghyson â disgwyliadau a gwerthoedd y Cyngor o ran cefnogi ei ddinasyddion mwyaf agored i niwed, ac yn gwbl groes i'n Cynllun Ailgartrefu Cyflym cymeradwy.

Fel yr oedd y sefyllfa ar 14/03/23, roedd y rhesymau dros digartrefedd a oedd yn golygu bod angen i bobl fyw mewn llety dros dro fel a ganlyn:

Tabl Un: Rheswm Dros Fyw Mewn Llety Dros Dro

| Rheswm dros ddigartrefedd | Cyfanswm yr holl breswylwyr mewn llety dros dro | % |
|---|---|---|
| Rhyddhau o'r carchar | 16 | 8 |
| Tor-perthynas – gyda thrais | 16 | 8 |
| Tor-perthynas – heb drais | 13 | 6.5 |
| Eiddo presennol yn anaddas | 11 | 5.5 |
| Colli llety rhent | 49 | 24.5 |
| Rhieni ddim yn fodlon rhoi lle i fyw mwyach | 26 | 13 |
| Perthnasau eraill ddim yn fodlon rhoi lle i fyw mwyach | 43 | 21.5 |
| Arall (gan gynnwys argyfwng) | 12 | 6 |
| Eiddo anfforddiadwy | 2 | 1 |
| Trais arall | 4 | 2 |
| Ôl-ddyledion rhent – sector preifat | 5 | 2.5 |
| Gadael sefydliad neu ofal | 3 | 1.5 |
| **Cyfanswm** | **200** | |

Mae'r pwysau sydd ar wasanaethau digartrefedd yn deillio o nifer o ffactorau cenedlaethol drwy'r system gyfan sy'n effeithio ar allu pobl i gael tai fforddiadwy a'u cadw, ynghyd â deddfwriaeth a gofynion strategol newydd gan Lywodraeth Cymru. Rhagwelir y bydd y galw'n parhau i dyfu os na fydd yr Adran Tai a Chymunedau yn rhoi rhaglen o drawsnewid sylweddol ar waith.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae newidiadau deddfwriaethol wedi cael eu cyflwyno, megis y Ddeddf Rhentu Cartrefi a Deddf Tai Cymru. Diben y Ddeddf Rhentu Cartrefi yw codi safonau a chynnig mwy o sicrwydd i bobl mewn llety rhent, ond mae rhai landlordiaid wedi penderfynu gadael y farchnad rentu yn hytrach na chydymffurfio â'r mesurau perthnasol. Mae'n debyg bod dros 50 o landlordiaid wedi gadael y farchnad yng Nghastell-nedd Port Talbot ers i'r Ddeddf gael ei chyflwyno, gan olygu bod rhentwyr wedi cael hysbysiadau troi allan ac wedi cael eu gwneud yn ddigartref. Fel y gellir gweld yn y tabl uchod, cafodd 24.5% o bobl mewn llety dros dro eu gwneud yn ddigartref am iddynt golli eu llety rhent, sef y gyfran uchaf o bobl mewn llety dros dro.

Cafodd newidiadau dros dro i Ddeddf Tai Cymru a gyflwynodd ddyletswydd gyfreithiol mewn perthynas â digartrefedd i amrywiaeth ehangach o bobl fel rhan o'r ymateb i COVID-19 eu gwneud yn barhaol ym mis Hydref 2022. Yn anochel, mae'r newidiadau hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth Opsiynau Tai, sydd bellach yn gweithio gyda llawer mwy o bobl y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt. Er bod aelodau ychwanegol o staff Opsiynau Tai wedi cael eu cyflogi, mae Swyddogion Opsiynau Tai yn dal i weithio gyda llwythi achosion o hyd at 65 o aelwydydd, sy'n eu hatal rhag cynnig cymorth mwy dwys sydd wedi'i dargedu'n fwy.

Ochr yn ochr â'r newidiadau deddfwriaethol hyn, mae'r sefyllfa o ran costau byw yn prisio mwy o bobl allan o'r sector preifat ac yn golygu bod mwy o bobl yn ei chael hi'n anodd cynnal eu tenantiaethau. Hefyd, gall pwysau ariannol gael effaith negyddol ar lesiant ac iechyd meddwl unigolyn, a gall hynny wedyn arwain at dor-perthynas a chwalfa deuluol. Er mai dim ond 1% o'r bobl mewn llety dros dro sy'n dweud eu bod wedi cael eu gwneud yn ddigartref am fod eu heiddo wedi mynd yn anfforddiadwy, a 2.5% oherwydd ôl-ddyledion rhent, mae angen ymchwilio i'r rhesymau dros ffigurau eraill, er enghraifft pam roedd 21.5% o bobl yn aros gyda pherthnasau a pham na allai'r 24.5% o bobl a gollodd eu llety rhent ddod o hyd i gartref arall. Mae demograffeg y bobl sy'n cysylltu ag Opsiynau Tai wedi newid hefyd, gyda chynnydd amlwg yn nifer y teuluoedd â phlant sy'n cael eu gwneud yn ddigartref ac mae angen llety dros dro arnynt, a oedd yn beth prin ychydig flynyddoedd yn unig yn ôl.

Mae Opsiynau Tai hefyd yn gweithio gyda mwy o bobl sydd â phroblemau niferus a chymhleth, fel iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a chefndiroedd troseddol. Ar hyn o bryd, mae gan 20% o'r bobl sy'n cael cymorth gan Opsiynau Tai angen uchel ac mae gan 6% anghenion dwys. Mae Adroddiad Diweddaru Blynyddol y Grant Cymorth Tai 2022-23 yn dangos, o blith y 486 o unigolion a ddefnyddiodd lety â chymorth neu lety dros dro a ariannwyd drwy'r Grant Cymorth Tai drwy gydol y flwyddyn, fod gan 33% angen eilaidd a oedd yn gysylltiedig â salwch meddwl a bod gan 13% gefndir troseddol.

I nifer o bobl, mae digartrefedd yn un o lawer o broblemau cymhleth y gall rhywun eu hwynebu ar yr un pryd, a gall hyn ei gwneud yn anos i bobl gael tai hirdymor a chadw eu cartrefi. Gall pobl fynd yn sownd mewn cylchoedd o ddigartrefedd am fod eu hanghenion cymhleth yn golygu na allant gynnal eu tenantiaethau, a bod eu hanes o denantiaethau 'aflwyddiannus' wedyn yn eu rhwystro rhag cael cartref arall. I nifer o bobl, nid yw darparu llety ar ei ben ei

hun yn golygu y byddant yn cael sicrwydd tai hirdymor am nad yw'r ffactorau ehangach a niferus sy'n eu gwneud yn agored i niwed wedi cael eu datrys.

Er mwyn atal digartrefedd yn well, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor roi Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ar waith a datblygu model Tai yn Gyntaf o fewn y pum mlynedd nesaf. Cytunwyd ar Gynllun Ailgartrefu Cyflym y Cyngor ym mis Hydref 2022, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol newid y ffordd rydym yn ymateb i ddigartrefedd yn gyfan gwbl, gan gynnwys y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu a'u darparu.

Hefyd, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a chyflwyno Strategaeth Grant Cymorth Tai er mwyn sicrhau dull strategol o ddarparu gwasanaethau atal ddigartrefedd a chymorth tai. Mae'r dull hwn yn cynnwys swyddogaethau digartrefedd statudol a ariennir drwy'r setliad refeniw a gwasanaethau ataliol anstatudol a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai.

Mae tai yn elfen allweddol yn y gwaith o helpu pobl yr aseswyd bod ganddynt angen gofal cymdeithasol i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw a chynnal neu gadw eu hannibyniaeth. Mae Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Castell-nedd Port Talbot yn esbonio'r gofyniad i greu amrywiaeth o fodelau llety newydd er mwyn ateb y galw a ragwelir a chyflawni canlyniadau personol pobl yn well.

Ar gyfer oedolion ag anghenion gofal cymhleth, megis anabledd dysgu neu salwch meddwl, ceir ymdrech i leihau dibyniaeth ar fodelau gofal mwy sefydliadedig, fel lleoliadau cartref gofal, a helpu i bobl i gael eu tenantiaeth eu hunain. Caiff yr uchelgais hwn ei gyflawni drwy ddatblygu modelau llety fel cynlluniau byw â chymorth, Gofal Ychwanegol, Craidd a Chlwstwr a byw'n annibynnol, ynghyd â chomisiynu cymorth priodol.

Ceir cryn dystiolaeth o'r pwysau o fewn gofal cymdeithasol a'r GIG yn sgil y ffaith bod ein poblogaeth yn heneiddio ac mae datblygu opsiynau llety priodol yn elfen allweddol o'r ymdrech i sicrhau y gellir diwallu anghenion gofal cymdeithasol pobl yn briodol. Ers blynyddoedd lawer, mae galluogi pobl hŷn i aros gartref wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond, erbyn hyn, mae cael lefelau digonol o ofal cartref i fodloni'r galw yn her, ac nid oes digon o opsiynau amgen addas ar gael yn lle lleoliadau cartref gofal. O ganlyniad i hynny, mae angen rhoi modelau cymunedol amgen ar waith.

Mae Opsiynau Tai hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ym maes digartrefedd ymhlith pobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal. Yn 2022/23, helpodd Opsiynau Tai chwe pherson ifanc 16 oed a oedd yn gadael gofal, 22 o bobl ifanc 22 oed a oedd yn gadael gofal a 12 o bobl ifanc rhwng 18 ac 21 oed a oedd yn gadael gofal. Mae angen datblygu mwy o wasanaethau seiliedig ar lety a chynnig ymateb mwy arbenigol i bobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd a phobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn iddynt allu ffynnu a gwireddu eu potensial wrth ddod yn oedolion.

Mae Strategaeth Dai wrthi'n cael ei datblygu ac mae'n hanfodol bwrw ymlaen â'r cynllun gwaith strategol ar gyfer tai er mwyn atal digartrefedd. Oni fydd yn ei gwneud yn haws i bobl gael tai fforddiadwy, ni fydd y Cyngor yn gallu atal digartrefedd a sicrhau y caiff pobl ddigartref eu hailgartrefu'n gyflym ac yn briodol. Caiff y strategaeth hon ei llywio gan y CDLl a'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.


Un o'r ffyrdd y gallwn helpu i ysgogi datblygiad tai fforddiadwy yw drwy'r Grant Tai Cymdeithasol, a gaiff ei reoli gennym ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r Grant Tai Cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd o 158% i'r grant a gyllidebwyd ar ein cyfer yn 2022/23, o gymharu â 2019/20 (£4,966,372). Mae cyfanswm o fwy na £40 miliwn wedi'i ddyrannu dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2022/23 a 2024/25, wedi'i rannu rhwng y tair blwyddyn ariannol. Yn 2022/23 rhoddwyd £12,819,862 i ni. Ni ellir cario'r arian hwn drosodd i flynyddoedd ariannol eraill, felly, os na all landlord cymdeithasol cofrestredig dynnu'r arian a ddyrannwyd iddo i lawr ar gyfer datblygiad, bydd ardal CNPT yn ei golli.

Ni fydd defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol ar ei ben ei hun yn llenwi'r bylchau o ran tai fforddiadwy, ac mae angen ystyried ffyrdd eraill o ysgogi'r farchnad tai fforddiadwy a sicrhau bod mwy o dai ar gael ar yr un pryd. Mae prosiectau fel Cynllun Lesio Cymru, sy'n galluogi perchnogion eiddo i lesio eu llety i'r awdurdod lleol, a'r Cynllun Cartrefi Gwag, sy'n rhoi grantiau i berchnogion eiddo er mwyn iddynt ailddechrau defnyddio eu heiddo gwag, hefyd yn adnoddau defnyddiol.

## 4. Galw


Rhwng 2019/20 a 2022/23, mae nifer yr aelwydydd sy'n defnyddio llety dros dro drwy gydol y flwyddyn wedi cynyddu 108%. Os byddwn yn parhau ar y trywydd hwn, bydd cynnydd o 244% yn y pum mlynedd nesaf, gan olygu y bydd angen i 2,233 o aelwydydd gael llety dros dro bob blwyddyn am gost o £4,444,000 y flwyddyn erbyn 2027/28.

Graff Un: Galw Gwirioneddol ac Amcanestynedig am Lety Dros Dro Drwy Gydol y Flwyddyn





Mae'r ail graff yn dangos bod nifer yr aelwydydd sy'n defnyddio llety dros dro ar unrhyw adeg benodol wedi cynyddu 280%. Mae rhagolygon yn dangos y bydd cynnydd o 87% dros y pum mlynedd nesaf, gan olygu y bydd angen i 349 o aelwydydd gael llety dros dro ar unrhyw adeg benodol erbyn 2027/28 (h.y. bydd angen i 349 o aelwydydd ddefnyddio llety dros dro ar yr un pryd).

Graff Dau: Galw Gwirioneddol ac Amcanestynedig am Lety Dros Dro ar Ddiwedd y Flwyddyn Ariannol




Mae'r trydydd graff yn dangos effaith ariannol y cynnydd hwn yn y galw ar gyllid y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf.

Graff Tri: Cost Amcanestynedig Llety Dros Dro a Gorwariant Cyllidebol Amcanestynedig





Mae cynnydd yn nifer y bobl ddigartref y mae angen llety dros dro arnynt yn creu effaith caseg eira o ran atal aelwydydd sy'n wynebu risg rhag cael eu gwneud yn ddigartref drwy'r gallu i gael tai fforddiadwy yn brydlon. Caiff pobl

mewn llety dros dro eu rhoi mewn band brys, sy'n rhoi'r flaenoriaeth uchaf iddynt pan fyddant yn gwneud cais am dai cymdeithasol. Gan fod cyfartaledd o 180 o bobl mewn llety dros dro ar unrhyw adeg benodol, ac felly'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer y tai cymdeithasol sydd ar gael, bydd llai o gyfleoedd i'r rhai yn y bandiau aur, arian ac efydd gael y tai y mae eu hangen arnynt.

Mae'r tabl isod yn dangos y rhestrau aros presennol ar gyfer ein landlord cymdeithasol cofrestredig mwyaf, sef Tai Tarian.

Tabl Dau: Rhestr Aros Tai Tarian yn ôl Band

| Band HBC | Ion-23 | Chwe-23 |
|---|---|---|
| Brys | 140 | 151 |
| Aur | 302 | 315 |
| Arian | 476 | 494 |
| Efydd | 2027 | 2045 |
| **Cyfanswm** | **2945** | **3005** |




Mewn rhai achosion, mae anallu pobl mewn bandiau nad ydynt yn rhai brys i gael tai cymdeithasol yn cyfrannu at fethiant eu trefniant tai presennol, er enghraifft aros am gyfnod byr mewn tai gorlawn neu 'fynd o soffa i soffa', a all fod wedi cael ei atal pe bai modd cael tai fforddiadwy yn fwy prydlon. Mae'r ffigurau yn nhabl un yn dangos bod 21.5% o'r bobl mewn llety dros dro wedi cael eu gwneud yn ddigartref am nad oedd perthnasau'n gallu rhoi lle i fyw iddynt mwyach, a 13% am nad oedd rhieni'n gallu rhoi lle i fyw iddynt mwyach. Mae'r math hwn o sefyllfa'n creu mwy fyth o alw ar lety dros dro, gan arwain at sefyllfa lle mae'n rhaid i rai pobl fod yn ddigartref ac aros mewn llety dros dro cyn iddynt allu cael tai fforddiadwy, a all fod wedi cael ei osgoi be bai modd iddynt gael tai cymdeithasol yn fwy prydlon.

Yn 2022/23, gwariodd y Cyngor £2.24 miliwn ar leoliadau gwely a brecwast, ac nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cost gweithredu llety dros dro i'r Cyngor, a'r cyfanswm a wariwyd ar y gwasanaeth Opsiynau Tai yn 2022/23 oedd £4.95 miliwn. Ar hyn o bryd, nid yw'r grantiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau digartrefedd yn gyson â'r costau gwirionedd yr eir iddynt. Bu gorwariant amcanestynedig o £1.45 miliwn

yn 2022/23 o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw am lety dros dro. Fodd bynnag, darparodd Llywodraeth Cymru grant untro o £842k tua diwedd y flwyddyn ariannol a leihaodd y gorwariant.

Yn seiliedig ar y galw a ragwelir am lety dros dro, os na chymerwn gamau i newid ein hymateb i ddigartrefedd yna bydd gan y Cyngor orwariant blynyddol o £2,566,000 erbyn 2027/28. Nid yw'r gorwariant amcanestynedig hwn yn ystyried yr angen i staff Opsiynau Tai gyfarfod â'r niferoedd cynyddol o bobl sy'n ddigartref, nac yn cyfrif am y ffaith y bydd cost unedol lleoliadau gwely a brecwast yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â chwyddiant.

Mae ein hamcanestyniadau'n dangos y bydd 227 o aelwydydd mewn llety dros dro erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2023/24, ond rydym eisoes yn symud yn gyflymach na'r disgwyl tuag at y ffigur hwn, sy'n golygu ei bod yn bosibl y bydd y ffigur gwirioneddol yn uwch na'r amcanestyniad. Fel yr oedd y sefyllfa ar 04.04.23 (h.y. wythnos gyntaf blwyddyn ariannol 2023/24), roedd yn ofynnol i'r Cyngor roi llety dros dro i 200 o aelwydydd, sef y nifer mwyaf erioed a chynnydd o 14 o aelwydydd mewn llai nag wythnos.

Yr hyn sy'n peri pryder arbennig yw nifer y teuluoedd â phlant bach sydd mewn llety dros dro. Rhwng 19/20 a 22/23, bu cynnydd o 620% yn nifer y teuluoedd a oedd yn byw mewn llety dros dro. Gall trefniant o'r fath darfu'n sylweddol ar addysg y plant. Hefyd, mae effaith hirdymor profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, megis y trawma sy'n gysylltiedig â bod yn ddigartref yn ystod plentyndod, yn glir iawn ac mae angen i ni weithredu nawr er mwyn atal cylchoedd pellach o dlodi a digartrefedd. Drwy ganolbwyntio ar leihau effeithiau niweidiol digartrefedd ymhlith plant, gallwn sicrhau'n well y gall ein holl bobl ifanc ffynnu ac atal amddifadedd rhwng y cenedlaethau.

Fel y nodwyd o'r blaen, mae llety arbenigol digonol hefyd yn hollbwysig er mwyn helpu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl a gefnogir ganddynt. Mae grŵp llwybr llety wedi cael ei sefydlu er mwyn cynllunio'r datblygiadau angenrheidiol gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac mae hynny wedi arwain at greu nifer o fodelau gofal newydd megis y cynlluniau arbenigol Gofal Ychwanegol a Chraidd a Chlwstwr.

Er gwaethaf y rhaglenni gwaith presennol, mae'r galw am lety â chymorth arbenigol i oedolion yr aseswyd bod ganddynt angen gofal cymdeithasol yn uchel ac yn drech na'r cyflenwad. O ganlyniad i hyn, mae angen prynu

lleoliadau cartref gofal, a bu cynnydd o 16% mewn lleoliadau cartref gofal anabledd dysgu a chynnydd o 23% mewn lleoliadau cartref gofal iechyd meddwl rhwng 2018/19 a 2021/22. Er bod angen rhywfaint o leoliadau cartref gofal, model gofal mwy sefydliadedig yw hwn, ac nid dyma'r model gofal gorau i'r unigolyn bob amser o ran cyflawni'r canlyniadau annibyniaeth a ddymunir ganddo. Hefyd, ceir pwysau parhaus o ran caffael lefelau digonol o ofal i gyd-fynd â'r galw ar gyfer pobl hŷn, gan fod 136 o bobl yn aros am becyn gofal cartref a'r defnydd gwelyau mewn cartrefi gofal ar 98% o'r gwelyau cofrestriad deuol sydd ar gael a 90% o'r gwelyau preswyl sydd ar gael.

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd 66 o bobl ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn cyrraedd 18 oed. Mae nifer o wasanaethau ar gael i gefnogi pobl ifanc sy'n dod yn oedolion, megis 'Pan Fydda i'n Barod' a 'Llety â Chymorth' ond bydd angen i nifer o'r bobl ifanc hyn hefyd gael llety neu gymorth gan Opsiynau Tai fel rhan o'u cynllun pontio. Yn ogystal â hyn, bydd angen i nifer o'r bobl ifanc hyn gael cymorth parhaus gan y Gwasanaethau Oedolion, a fydd yn rhoi rhagor o alw ar gyflenwad o wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion sydd eisoes yn gyfyngedig.

Yn y pen draw, er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd, llety ansicr a gofal sefydliadedig, bydd angen i ni sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai sydd ar gael i ni ac yn datblygu tai mwy fforddiadwy a hygyrch.

Yn 2022, roedd y stoc tai cymdeithasol fel a ganlyn:

Tabl Tri: Y Stoc Dai yn 2022 yn ôl Ardal CDLl a Nifer yr Ystafelloedd Gwely

| Stoc Dai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ôl Ardal CDLl 2022 | 1 ystafell wely | 2 ystafell wely | 3 ystafell wely | 4 ystafell wely | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwm Afan | 52 | 308 | 428 | 6 | **794** |
| Cwm Aman | 58 | 151 | 122 | 6 | **337** |
| Cwm Dulais | 89 | 157 | 187 | 7 | **440** |
| Castell-nedd | 1,327 | 1,722 | 1,720 | 59 | **4,828** |
| Cwm Nedd | 144 | 104 | 279 | 13 | **540** |
| Pontardawe | 308 | 305 | 257 | 42 | **912** |
| Port Talbot | 850 | 1,314 | 2,025 | 59 | **4,248** |
| Cwm Tawe | 126 | 376 | 232 | 3 | **737** |
| Cyfansymiau heb gynnwys Linc am nad yw'r eiddo wedi'u gwahanu yn ôl ardal CDLl | 2,954 | 4,437 | 5,250 | 195 | **12,836** |
| Cyfansymiau yn cynnwys eiddo Linc heb eu gwahanu yn ôl ardal CDLl | **3,190** | **4,531** | **5,340** | **198** | **13,259** |

Yn 2022/23, cafodd 195 o aelwydydd digartref le i fyw gan landlord cymdeithasol cofrestredig ac, o'u plith, roedd 63% yn bobl sengl a 27% yn deuluoedd. Mae'n anodd cael ffigurau manwl gywir, ond mae data'r Cyngor yn awgrymu mai dim ond 35.5% o osodiadau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn 2022/23 a

roddwyd i bobl a oedd yn ddigartref. Bydd llawer o resymau dros hyn, gan gynnwys bod yr eiddo sydd ar gael yn anaddas (e.e. bod y galw am eiddo un ystafell wely yn fwy na'r nifer sydd ar gael) a hefyd ceir achosion lle nad yw aelwydydd digartref yn gwneud cais am yr eiddo sydd ar gael. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y bydd pobl sydd â hanes o denantiaethau aflwyddiannus am resymau fel ôl-ddyledion rhent, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chefndiroedd troseddol yn ei chael hi'n anos sicrhau tenantiaethau yn y dyfodol.

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ar gyfer y cyfnod 2021-2036 wrthi'n cael ei adolygu ond mae'r arwyddion cychwynnol yn dangos yr anghenion tai canlynol:

Tabl Pedwar: Ffigurau'r Asesiad o'r Angen Lleol am Dai

| Cyfnod | Tai Fforddiadwy | Sy'n Dai Rhent Cymdeithasol | Sy'n Dai Canolradd | Tai'r Farchnad Agored | Cyfanswm ar gyfer y Cyfnod | Cyfanswm y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y pum mlynedd cyntaf | 2060 | 1885 | 175 | 1010 | 3070 | **614** |
| Y 10 mlynedd sy'n weddill | 1180 | 830 | 350 | 2020 | 3200 | **320** |
| Cyfnod cynllun 2021-2036 | 3240 | 2715 | 525 | 3030 | 6270 | **418** |
| % | 52 | 43 | 8 | 48 | | |

O'r 3,070 o gartrefi y mae angen eu datblygu yn ystod pum mlynedd cyntaf cyfnod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, byddai angen i 67% fod yn dai fforddiadwy a byddai angen i 32% fod yn dai'r farchnad agored. Mae amcanestyniadau drafft ar gyfer y cyfnod 2021-2026 yn dangos bod angen net am 412 o gartrefi fforddiadwy y flwyddyn, y byddai 92% ohonynt yn dai cymdeithasol a'r 8% sy'n weddill yn dai canolradd. Mae'r adnodd hefyd yn dangos y dylai 68% o'r angen am dai fforddiadwy ar gyfer y cyfnod hwnnw fod yn eiddo un ystafell wely.

Mae'r cydbwysedd rhwng tai fforddiadwy a thai'r farchnad agored yn dod yn fwy cyfartal dros gyfnod cyfan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, sef 2021-36, gyda 52% yn dai fforddiadwy a 48% yn dai'r farchnad agored. Y prif reswm dros y ganran uwch o dai fforddiadwy yn y pum mlynedd cyntaf yw'r angen nas diwallwyd presennol ac, os byddwn yn parhau i danddatblygu tai fforddiadwy, bydd hyn yn cael effaith gynyddol ar y cyfnod 2027-2036.

Mabwysiadwyd y CDLl yn 2016 ac mae'r Cyngor yn y broses o baratoi CDLl Newydd ar gyfer y cyfnod 2021-2036. Roedd y CDLl presennol yn darparu ar gyfer 7,800 o eiddo preswyl newydd dros y cyfnod 2011-2026. Roedd y ffigur hwn yn seiliedig ar greu cyflogaeth newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot ac, yn y dyfodol, bydd yn bwysig bod y Cyngor yn cynllunio ar gyfer swyddi newydd a fydd yn deillio o brosiectau fel y Porthladd Rhydd a'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd.

Yn y CDLl roedd targed i adeiladu 1,200 o gartrefi fforddiadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot dros y cyfnod 2011-2026. Yn anffodus, oherwydd lefelau isel o adeiladu tai ar gyfer y farchnad agored, a hynny'n bennaf o ganlyniad i hyfywedd sy'n gysylltiedig â gwerthoedd tir isel, mae'r nifer a adeiladwyd wedi bod yn llai na'r targed ers sawl blwyddyn.

Ar hyn o bryd, mae 23 o gynlluniau yn ein rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, a rhagwelir y byddant yn cyflenwi 629 o unedau dros gyfnod y grant, sef 2022/23-2024/25. Bydd 93% o'r rhain yn dai cymdeithasol, a bydd y 7% sy'n weddill yn dai rhanberchnogaeth. Mae hyn gryn dipyn yn llai na chyfanswm nifer y tai fforddiadwy sy'n ofynnol yn yr ardal ac, fel y cyfryw, mae angen cymryd camau i ysgogi buddsoddiad yn yr ardal a dod o hyd i gyfleoedd i gyflenwi tai fforddiadwy, gan gynnwys ailddechrau defnyddio eiddo gwag.

## 5. Heriau

Gellir crynhoi'r prif heriau sy'n wynebu'r Cyngor o ran digartrefedd a thai fforddiadwy a nodir yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- **Galw yn Drech na'r Cyllid Grant sydd ar Gael –** Nid yw'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor er mwyn cefnogi pobl sy'n wynebu digartrefedd neu sydd eisoes yn ddigartref yn ddigon i fodloni'r galw presennol na'r galw amcanestynedig. Hefyd, ni ddyrannwyd cyllid newydd er mwyn darparu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym ac mae dyraniad Grant Cymorth Tai 2023/24 wedi aros yr un faint, er gwaethaf chwyddiant cynyddol a'r cynnydd yn y galw. Nid oes modd cyflawni ein dyletswyddau statudol o fewn y cyllid grant sydd ar gael, ac mae hyn yn achosi pwysau cyllidebol o fewn y Cyngor.
- **Lleihad yn Nhai'r Sector Rhentu Preifat** – Mae lleihad amlwg wedi bod yn nifer yr eiddo rhentu preifat yn yr ardal wrth i landlordiaid adael y

sector, sy'n arwain at gynnydd yn nifer y bobl ddigartref, gan gynnwys teuluoedd.

- **Fforddiadwyedd Tai'r Sector Rhentu Preifat** – Ochr yn ochr â lleihad mewn llety rhentu preifat, mae lefelau rhent yn aml yn anfforddiadwy i bobl sydd ar incwm isel neu sy'n dibynnu ar fudd-daliadau tai, gan arwain at fwy o alw am dai cymdeithasol.
- **Argaeledd Eiddo Un Ystafell Wely –** Mae aelwydydd yn mynd yn llai ac mae lefelau budd-daliadau tai yn golygu bod rhentu cartref ag ystafell wely sbâr yn anfforddiadwy i lawer o bobl. Ceir gwahaniaeth rhwng y galw am dai fforddiadwy ag un ystafell wely a'r stoc tai cymdeithasol sydd ar gael, gan mai tai digon mawr i deuluoedd yw'r rhan fwyaf o eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae hyn yn ei gwneud yn anos i bobl ddigartref symud allan o lety dros dro ac i mewn i denantiaeth gynaliadwy.
- **Dim Digon o Dai Cymdeithasol** – Mae nifer y bobl sy'n aros am dai cymdeithasol yn llawer mwy na nifer yr eiddo sydd ar gael. Hefyd, am fod mwy a mwy o bobl yn y band 'brys' oherwydd eu statws digartrefedd, ni all y bobl mewn categorïau eraill sicrhau tai cymdeithasol yn brydlon.
- **Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal a Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc –** Byddwn yn gweld nifer o bobl ifanc yn symud ymlaen o Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Hefyd, rydym yn gweld niferoedd cynyddol o deuluoedd yn chwalu gan arwain at ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc. Mae angen sicrhau bod digon o wasanaethau arbenigol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl ifanc hyn.
- **Pobl ag Anghenion Cymhleth a/neu Niferus –** Mae niferoedd cynyddol o bobl yn cysylltu ag Opsiynau Tai sydd ag anghenion niferus a chymhleth sy'n cyd-ddigwydd, ac mae hynny'n ei gwneud yn anos iddynt sicrhau a chynnal tenantiaeth hirdymor ac yn aml yn eu rhoi mewn perygl o fod yn ddigartref dro ar ôl tro.
- **Costau Byw** – Mae'n debygol y bydd y cynnydd mewn costau a chwyddiant yn cael effaith sylweddol ar ein poblogaethau mwyaf amddifad yn economaidd, gan olygu y bydd mwy o aelwydydd yn ei chael yn anodd cynnal eu tenantiaethau ac yn mynd yn ddigartref.
- **Diffyg Cynllunio Strategol** – Mae adnoddau tai strategol wedi bod yn brin ers tro, ac mae hynny wedi arwain at lai o gynllunio strategol a

dulliau partneriaeth cydgysylltiedig, yn ogystal ag anallu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido a buddsoddi.

- **Gwerthoedd Tir** – Mae gwerthoedd tir isel yn cael effaith negyddol ar hyfywedd datblygiadau newydd yn yr ardal, sy'n ei gwneud yn fwy heriol i ni gyrraedd targedau ein CDLl ac yn arwain at ddiffyg tai ychwanegol o gymharu â'r galw amcanestynedig.
- **Digonolrwydd Tir Addas** – Mae nifer o heriau'n gysylltiedig â dod o hyd i dir datblygu addas yn yr ardal, a all achosi rhwystrau rhag creu digon o ddatblygiadau newydd ac a allai arwain at orddatblygu mewn ardaloedd mwy addas.
- **Pryderon Ynglŷn â Chydlyniant Cymunedol a Chreu Lleoedd** – Gall gorddatblygu mewn rhai ardaloedd a diffyg datblygiadau cytbwys sydd wedi'u cynllunio mewn modd cyfannol roi pwysau ar y cymunedau a'r seilwaith sydd eisoes yno.
- **Costau Datblygu Uwch** – Mae lefelau chwyddiant presennol ac effaith costau byw yn arwain at gostau datblygu uwch, sy'n peri risgiau o ran hyfywedd ac a all arwain at arafu datblygiadau newydd sydd wedi'u cynllunio neu roi'r gorau iddynt. Mae cynnydd mewn costau hefyd yn golygu nad yw'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl sydd ar gael yn ddigon i fodloni'r galw a ragwelir, a bydd hynny'n arwain at amseroedd aros llawer hwy am addasiadau, a all olygu na fydd rhai pobl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi.
- **Anghenion Gofal Cymdeithasol –** Bydd niferoedd cynyddol o bobl ag anableddau cymhleth y mae angen gwasanaethau gofal cymdeithasol arnynt, ochr yn ochr â phoblogaeth sy'n heneiddio a gweithlu prin yn golygu na fydd darpariaeth addas ar gael oni fydd rhaglen i roi modelau gofal newydd ar waith.
- **Eiddo Gwag** – Gall eiddo nas defnyddir fynd yn niwsans lleol a chael effeithiau negyddol ar y gymuned a'r amgylchedd. Maent hefyd yn enghraifft o golli cyfle o ystyried y pwysau ar y tai sydd ar gael ar hyn o bryd.
- **Adfywio a Phoblogaethau sy'n Tyfu** – Bydd diffyg tai digonol i gyflawni ac ategu ein huchelgeisiau adfywio yn lleihau'r gallu i greu swyddi lleol ar gyfer pobl leol ac atgyfnerthu ein heconomi leol.
- **Cefnogi Ceiswyr Lloches –** Mae problemau byd-eang niferus yn golygu bod angen i ni sicrhau ein bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref, ein partneriaid statudol a'n partneriaid yn y trydydd

sector i sicrhau bod ein cynlluniau strategol yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r angen i ddarparu llety addas a phriodol ar gyfer pobl sy'n ceisio lloches.

## 6. Egwyddorion Strategol

Nid yw ein sefyllfa bresennol yn gynaliadwy ac, oni newidiwn yr hyn rydym yn ei wneud nawr yn llwyr, ni fyddwn yn gallu rheoli effaith ddynol ac ariannol digartrefedd a thai anfforddiadwy. Er mwyn gwrthdroi'r galw, mae angen gwneud newidiadau ar raddfa fawr er mwyn sicrhau bod y Cyngor a'i bartneriaid strategol yn gallu ymateb i'r sefyllfa o ran tai a digartrefedd sy'n wynebu ein cymunedau. Bydd y naw egwyddor arweiniol canlynol yn sail i'r newidiadau hyn:

- **Cynllunio** drwy weithio'n fwy strategol gyda'r Cyngor ehangach, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, datblygwyr, landlordiaid preifat a darparwyr gwasanaethau yn y ffordd rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni i roi ymyriadau cynaliadwy ym maes tai a digartrefedd ar waith yn unol ag anghenion y boblogaeth.
- **Paratoi** ar gyfer dyfodol Castell-nedd Port Talbot drwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ni i ddarparu digon o dai er mwyn sicrhau cymunedau ffyniannus a llewyrchus yn unol â'r anghenion a ragwelir gennym.
- Dilyn egwyddorion **creu lleoedd** fel sail i'n cynlluniau datblygu er mwyn i ni allu hybu cymunedau cynaliadwy.
- **Diogelu** ein dyfodol drwy leihau ein heffaith amgylcheddol a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer datgarboneiddio ac effeithlonrwydd ynni.
- Gweithio mewn **partneriaeth** drwy adeiladu ar ein cydberthnasau â rhanddeiliaid er mwyn datblygu dull cydweithredol o fynd i'r afael ag anghenion tai CNPT a rhoi diwedd ar ddigartrefedd.
- **Atal** digartrefedd lle bynnag y bo modd ac, os bydd yn digwydd, ei atal rhag digwydd dro ar ôl tro drwy ddatblygu gwasanaethau cymorth wedi'u targedu a llety addas.
- Cynnig ymatebion wedi'u **personoli** i gefnogi pobl ag anghenion tai drwy sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd ein dull gweithredu, a thrwy hynny alluogi pobl ag anghenion cymhleth a/neu niferus i gael lle sefydlog i fyw.

- Sicrhau canlyniadau **cadarnhaol** ar gyfer pobl ag anghenion gofal cymdeithasol, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal, drwy ddatblygu modelau llety arbenigol sy'n hybu annibyniaeth ac yn lleihau'r angen am ofal mwy sefydliadedig.
- **Darparu** sgiliau ac adnoddau i'n gweithlu er mwyn iddynt allu dilyn ffordd ataliol newydd o weithio a chynnig yr ymyriadau a'r llety cywir i bobl er mwyn iddynt allu gwireddu eu potensial.

## 7. Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer Gweithredu

Gwyddom fod llawer o waith i'w wneud er mwyn cyflawni ein huchelgais i sicrhau y gall holl ddinasyddion Castell-nedd Port Talbot gael tai diogel a phriodol. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r meysydd blaenoriaeth rydym yn bwriadu eu datblygu dros y tair blynedd nesaf a thu hwnt.

**Maes Blaenoriaeth Un – Gweithio Mewn Ffordd Fwy Strategol**

- ✓ **Dull Datblygu Strategol** – Byddwn yn dilyn dull strategol mwy cydgysylltiedig o weithio gyda'n partneriaid i hwyluso'r broses o ddatblygu'r ymyriadau cywir, p'un a yw hynny'n golygu darparu llety mwy arbenigol neu gomisiynu gwasanaethau atal digartrefedd wedi'u targedu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu strategaethau a chynlluniau penodol a'u rhoi ar waith mewn ffordd strategol, gan gynnwys rhai ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl hŷn a theuluoedd digartref. Bydd hefyd yn cynnwys cynllunio'r adnoddau sydd ar gael i ni mewn ffordd fwy strategol, megis sefydlu panel Grant Tai Cymdeithasol i asesu ceisiadau am gyllid grant er mwyn sicrhau bod y cynigion yn hyfyw ac yn cydymffurfio â gofynion Castell-nedd Port Talbot.
- ✓ **Gwell Dulliau Gweithio Mewn Partneriaeth a Dulliau Amlasiantaeth –** Byddwn yn atgyfnerthu ein dulliau o weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, datblygwyr preifat a landlordiaid preifat, yn ogystal â sicrhau mwy o weithio cydgysylltiedig gydag adrannau eraill y Cyngor megis adran yr Amgylchedd ac Adfywio a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fel bod dull cyffredin o ddiwallu ein hanghenion o ran tai. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu'r Fforwm Partneriaeth Tai Strategol, digwyddiadau rheoli'r farchnad, ymgysylltu â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a

chyfarfodydd partneriaeth rheolaidd â Thimau Cynllunio, Iechyd yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor. Bydd hefyd yn golygu cydweithio'n agosach â darparwyr gwasanaethau a grwpiau partneriaeth eraill megis y Bwrdd Cynllunio Ardal, y Grŵp Arweinyddiaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, er mwyn sicrhau y caiff ymyriadau cyfannol eu sefydlu ar gyfer y bobl rydym yn eu cefnogi.

- ✓ **Cynnwys y trydydd sector yn well** - Byddwn yn adeiladu ar ein partneriaethau trydydd sector presennol er mwyn manteisio ar ystod eang o arbenigedd a gwybodaeth y sector wrth edrych ar y ffordd orau o gefnogi ein cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda CGG Castell-nedd Port Talbot i gynnwys y trydydd sector, gan gynnwys gwirfoddolwyr yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno ymyriadau a all atal neu liniaru digartrefedd. Bydd hefyd yn cynnwys sicrhau bod eu harbenigedd yn llywio ein cynlluniau strategol a bod ein darpariaeth strategol yn ystyried cynaladwyedd y sector.
- ✓ **Cyfleoedd Mewnol i Ddatblygu** – Byddwn yn cydweithio'n agosach fel Cyngor er mwyn dod o hyd i gyfleoedd i oresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n ein hatal rhag gwneud cynnydd, megis diffyg tir ar gael sy'n addas ac yn hyfyw ar gyfer datblygu. Bydd hyn yn cynnwys arfarniadau opsiynau ac achosion busnes ar gyfer defnyddio tir sy'n eiddo i'r Cyngor ac addasu adeiladau'r Cyngor at ddibenion gwahanol yn unol â'r anghenion tai a nodwyd gennym. Ymhlith y meysydd i'w hystyried bydd datblygu canolfannau brysbennu a llety ar gyfer pobl hŷn, yn ogystal â darparu llety dros dro ar gyfer pobl ddigartref a modelau llety â chymorth ar gyfer pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.
- ✓ **Manteisio i'r Eithaf ar Gyfleoedd Buddsoddi** – Byddwn yn ystyried sut y gallwn ddenu mwy o ddatblygiadau a buddsoddiad i Gastell-nedd Port Talbot drwy ddefnyddio grantiau a ffynonellau cyllid eraill. Yn ogystal â dyrannu'r Grant Tai Cymdeithasol mewn ffordd fwy strategol, bydd hyn hefyd yn cynnwys manteisio i'r eithaf ar y grantiau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, megis y Gronfa Tai â Gofal er mwyn datblygu amrywiaeth o fodelau llety gofal cymdeithasol, y Cynllun Cartrefi Gwag er mwyn ailddechrau defnyddio eiddo nas defnyddir a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro er mwyn galluogi pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd i gael lle mwy parhaol i fyw. Bydd hefyd yn cynnwys gweithio gyda'r Cyngor ehangach fel rhan o'n dull gweithio

mewn partneriaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd buddsoddi eraill. Hefyd, byddwn yn canolbwyntio ar hwyluso gwaith rheoli'r farchnad ar gyfer y sector preifat a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn adeiladu mwy o dai fforddiadwy, gan gynnwys cynyddu nifer yr unedau o adeiladau newydd a ddyrennir i Opsiynau Tai.

- ✓ **Hybu'r Economi Leol** – Byddwn yn sicrhau y bydd ein gwaith yn cefnogi'r economi leol ehangach drwy ein hymrwymiad i weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar leoedd a thrwy sicrhau bod ein cynlluniau datblygu strategol yn ystyried yr angen i fodloni'r galw am dai ar gyfer gweithlu sy'n tyfu. Ein bwriad fydd helpu'r bobl sy'n gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot i fyw'n fwy lleol i'w gweithle a lleihau mudo economaidd drwy ddarparu tai addas. Caiff hyn ei gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth ag adrannau eraill yn y Cyngor, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a datblygwyr preifat i sicrhau bod gennym y mathau cywir o dai yn y lleoliadau cywir.
- ✓ **Cydlyniant Cymunedol –** Byddwn yn gweithio i gynnwys cymunedau lleol ac Aelodau Etholedig yn y gwaith o gyflawni ein cynlluniau ac i sicrhau ein bod yn pwyso a mesur anghenion lleol yn ofalus wrth fwrw ymlaen â'n blaenoriaethau. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu'n briodol ac yn brydlon, er mwyn sicrhau y bydd gwybodaeth leol yn llywio ein cynlluniau strategol ac y bydd CNPT yn mynd i'r afael â thai a digartrefedd mewn ffordd unedig. Bydd hefyd yn cynnwys ystyried yn well sut mae cynigion newydd yn rhyngweithio â chymunedau sydd eisoes yn byw yn yr ardal. Bydd hefyd yn cynnwys gwell ystyriaeth o sut mae cynigion newydd yn rhyngweithio â chymunedau presennol a hyrwyddo datblygiad a arweinir gan y gymuned.
- ✓ **Cefnogi'r Amgylchedd** – Byddwn yn sicrhau y caiff amcanion amgylcheddol ehangach y Cyngor eu cefnogi drwy ein cynllun gwaith, o ran sicrhau y caiff ystyriaethau amgylcheddol eu gwreiddio yn ein cynlluniau a thrwy roi mesurau ar waith i hybu tai sy'n fwy effeithlon o ran ynni ac ecogyfeillgar. Bydd y mesurau hyn yn cynnwys gofyn am dystiolaeth o'r ffordd y bydd datblygiadau'n helpu i leihau allyriadau carbon a'r defnydd o ynni fel rhan o'r broses o wneud cais am y Grant Tai Cymdeithasol, a hyrwyddo rhaglenni datgarboneiddio penodol, fel Cynllun ECO4 Flex.

**Maes Blaenoriaeth Dau – Atal Digartrefedd**

- ✓ **Ailgartrefu Cyflym –** Byddwn yn parhau i ddatblygu ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym er mwyn cyrraedd sefyllfa lle y bydd digartrefedd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn brin a, phan fydd yn digwydd, y bydd yn fyr ac na fydd yn digwydd dro ar ôl tro. Bydd ein Cydgysylltydd Ailgartrefu Cyflym yn arwain y gwaith o gyflawni amcanion ein cynllun, sef darparu tai sy'n ddiogel ac yn fforddiadwy. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhaglen uchelgeisiol o weithgarwch i drawsnewid yn gyfan gwbl y ffordd rydym yn cefnogi aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd neu sydd eisoes yn ddigartref.
- ✓ **Llety Dros Dro –** Byddwn yn rhoi mesurau amgen byrdymor ar waith er mwyn lleihau'r defnydd o leoliadau gwely a brecwast tra byddwn yn gweithredu ac yn gwreiddio ein cynlluniau atal digartrefedd. Er mai ein huchelgais yw atal digartrefedd a lleihau'r angen am lety dros dro, ceir angen brys i symud i ffwrdd o'n gorddibyniaeth bresennol ar leoliadau gwely a brecwast, gan nad yw'r math hwn o ymyriad yn gynaliadwy i'r Cyngor ac am ei fod yn creu mwy o fyrhoedledd a llai o sefydlogrwydd i bobl ddigartref. Bydd y Cyngor yn cyflawni hyn drwy lesio eiddo addas ac addasu adeiladau nas defnyddir sy'n eiddo i'r Cyngor at ddibenion gwahanol er mwyn cynyddu nifer yr unedau llety dros dro a weithredir gan y Cyngor, gan gynnwys unedau mwy arbenigol ar gyfer grwpiau fel teuluoedd.
- ✓ **Canolfannau Brysbennu** – Byddwn yn sefydlu model newydd o lety byrdymor ar gyfer pobl ddigartref sydd ag anghenion mwy cymhleth neu niferus, lle y caiff eu hanghenion cyfannol hirdymor o ran llety a chymorth eu hasesu. Drwy'r broses hon o asesu a rhoi llety, byddwn yn gallu canfod y math mwyaf priodol o wasanaeth cymorth a llety hirdymor yn unol ag anghenion penodol yr unigolyn. Bydd y Cyngor yn caffael llety priodol ar gyfer y modelau hyn gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a hefyd drwy ailddatblygu adeiladau y mae'r Cyngor eisoes yn berchen arnynt, a chaiff y gwasanaeth cymorth ac asesu ei ddarparu gan swyddogion arbenigol o'r Tîm Opsiynau Tai.
- ✓ **Gwasanaeth Tai yn Gyntaf** – Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno model Tai yn Gyntaf ar gyfer pobl ddigartref sydd ag anghenion niferus a chymhleth. Bydd pobl a gaiff eu hatgyfeirio at y gwasanaeth yn cael cymorth dwys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau y gallant gynnal tenantiaeth hirdymor a'u hatal rhag mynd yn sownd mewn

cylchoedd o ddigartrefedd.  Dim ond drwy waith partneriaeth cadarn rhwng y Tîm Opsiynau Tai, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, darparwyr arbenigol gwasanaethau cymorth tai a sefydliadau statudol eraill megis y GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol y gellir symud tuag at fodel Tai yn Gyntaf. Drwy adeiladu ar ein partneriaethau cadarn a chomisiynu'r modelau cymorth cywir, byddwn yn sefydlu nifer o unedau Tai yn Gyntaf ac yn lleihau'r achosion o ddigartrefedd mynych ar gyfer ein trigolion mwyaf cymhleth ac agored i niwed.

- ✓ **Adolygu Dyraniadau Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig** – Mae angen i ni weithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gynyddu nifer yr unedau tai cymdeithasol sydd ar gael a ddyrennir i aelwydydd digartref. Bydd cydweithio'n well â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ein galluogi i adnabod y rhwystrau sy'n eu hwynebu wrth ddyrannu mwy o dai cymdeithasol i bobl ddigartref. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau cymorth tai priodol ar waith ar gyfer pobl y mae angen cymorth parhaus arnynt i gynnal eu tenantiaethau, gan feithrin gwell dealltwriaeth o'r rhesymau pam na ddaw ceisiadau i law am rai eiddo a pham na fydd rhai aelwydydd yn gwneud cais am eiddo sydd ar gael. Mae cysylltiadau agos rhwng y gwaith hwn a'n gwaith datblygu strategol ehangach oherwydd, yn aml, nid yw'r eiddo sydd ar gael yn cyd-fynd ag anghenion y rhai sy'n gwneud cais am gartref, er enghraifft mwy o ystafelloedd gwely na'r hyn y mae ei angen ar yr aelwyd.
- ✓ **Atgyfnerthu'r Tîm Opsiynau Tai –** Mae aelodau'r Tîm Opsiynau Tai yn hynod ymroddgar ond maent dan lawer o bwysau ac mae eu rolau, yn ogystal â lefel y galw sydd arnynt, wedi newid yn sylweddol ers COVID-19. Golyga hyn fod angen i'r Cyngor atgyfnerthu'r adnoddau a'r cymorth a roddir i'r Tîm er mwyn sicrhau ei fod yn y sefyllfa orau i ymateb yn briodol i'r cynnydd mewn digartrefedd a'r ymdrechion i'w atal.
- ✓ **Trawsnewid Gwasanaethau Cymorth Tai** – Byddwn yn cynnal rhaglen o adolygiadau gwasanaeth ar gyfer yr holl wasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai ac yn meincnodi'r canlyniadau perfformiad presennol yn erbyn eu cyfraniad at gyflawni ein hamcanion strategol o ran tai a digartrefedd. Ar sail yr adolygiadau hyn, byddwn yn dechrau ar broses o drawsnewid y gwasanaethau hynny nad ydynt yn cyflawni ein blaenoriaethau strategol newydd yn ddigonol drwy ailfodelu ac ailgomisiynu modelau gwasanaeth sydd eisoes ar waith. Bydd hyn yn

cynnwys ad-drefnu cyllid er mwyn darparu gwasanaethau Tai yn Gyntaf ac ailddatblygu gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli er mwyn helpu i ddatblygu ein Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn well a diwallu anghenion newidiol ein poblogaeth leol yn well.

- ✓ **Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer Anghenion Cymhleth –** Byddwn yn dilyn dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn er mwyn sicrhau y bydd pobl ag anghenion cymhleth a niferus yn cael y mathau cywir o ymyriadau er mwyn eu galluogi i dorri cylchoedd o ddigartrefedd a sicrhau tai hirdymor. Caiff hyn ei gyflawni drwy fesurau fel atgyfnerthu'r Tîm Opsiynau Tai a sefydlu canolfannau brysbennu. Hefyd, caiff pobl ag anghenion mwy cymhleth eu cefnogi drwy sefydlu gwasanaethau cymorth tai sydd wedi'u targedu'n fwy ac sy'n canolbwyntio ar unigolion ac ar eu helpu i gynnal eu tenantiaethau.
- ✓ **Cynnal Tenantiaethau** – Byddwn yn sefydlu panel cynnal tenantiaethau gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau y caiff ymyriadau cynnar eu cynnig i drigolion a allai fod yn ei chael yn anodd cynnal eu tenantiaethau. Drwy weithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau i adnabod aelwydydd sy'n wynebu risg, bydd y dull amlasiantaeth hwn yn sicrhau y bydd gwaith â ffocws pendant yn cael ei wneud gydag aelwydydd cyn i broblemau waethygu gan beryglu eu tenantiaethau, a thrwy hynny'n lleihau nifer yr aelwydydd a gaiff eu gwneud yn ddigartref oherwydd methiant tenantiaeth.

## Maes Blaenoriaeth Tri – Cynyddu'r Gallu i Gael Tai Fforddiadwy Priodol

- ✓ **Enwebiadau ar gyfer Adeiladau Newydd** – Byddwn yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gynyddu nifer yr unedau llety a gaiff eu dyrannu er mwyn helpu pobl ddigartref i gael tai parhaol, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn sicrhau cymunedau cytbwys. Drwy ddatblygu cytundebau gosod lleol ar gyfer datblygiadau newydd a sicrhau y bydd tai newydd yn cyd-fynd a'r galw o ran math, lleoliad ac ystafelloedd gwely, byddwn yn cydweithio â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau y caiff y tai sydd ar gael eu blaenoriaethu i'r bobl sydd â'r mwyaf o angen am dai fforddiadwy. Gwneir hyn gan gynnal cydlyniant cymunedol ar yr un pryd, drwy ddyrannu tai mewn ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn a chynnig mwy o wasanaethau wedi'u teilwra ar gyfer pobl ag anghenion cymorth tai parhaus. Hefyd, caiff cydlyniant cymunedol ei atgyfnerthu drwy weithio'n agosach mewn

partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig drwy'r broses dylunio a datblygu.

- ✓ **Ailddechrau Defnyddio Cartrefi Gwag** – Byddwn yn gweithio gydag adrannau eraill y Cyngor i ddatblygu strategaeth ar gyfer lleihau nifer y cartrefi gwag yn y fwrdeistref, a'i rhoi ar waith. Bydd hyn yn cynnwys bwrw ymlaen â Chynllun Cartrefi Gwag Llywodraeth Cymru yn ogystal ag ystyried sut y gallwn helpu perchnogion eiddo i ailddechrau defnyddio eu heiddo a gweithio mewn partneriaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn helpu i adnewyddu neu ailddatblygu eiddo gwag. Bydd ein gwaith hefyd yn cynnwys ystyried cynlluniau prynu'n ôl ar gyfer eiddo a fu'n dai cymdeithasol gynt a sut y gellid prynu cartrefi gwag er mwyn cynyddu'r stoc sy'n eiddo i'r Cyngor. Drwy wneud hyn, bydd y Cyngor yn gallu gwneud y defnydd gorau posibl o stoc nas defnyddir o dai parod ac atal yr effeithiau andwyol ar y gymuned a'r amgylchedd yn sgil eiddo nas defnyddir.
- ✓ **Ymgysylltu â'r Sector Preifat** – Byddwn yn ceisio cynyddu nifer y tai sector preifat fforddiadwy yng Nghastell-nedd Port Talbot er mwyn galluogi mwy o bobl i gael tai addas a lleihau dibyniaeth ar stoc tai cymdeithasol y fwrdeistref. Caiff hyn ei gyflawni drwy sefydlu fforymau sector preifat a datblygu prosiectau penodol i sicrhau bod mwy o dai rhent preifat fforddiadwy o ansawdd da ar gael, gan gynnwys cynyddu nifer yr eiddo a weithredir gan y Cyngor drwy raglen Cynllun Lesio Cymru. Bydd hyn hefyd yn golygu gweithio gyda Chyfarwyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio'r Cyngor i ddylanwadu ar y farchnad breifat o ran y math ac amrywiaeth o stoc dai y bydd yn ei datblygu.
- ✓ **Cynyddu'r Stoc sy'n Eiddo i'r Cyngor** – Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith blaenorol i gynyddu nifer yr eiddo y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac yn eu rheoli er mwyn cynnig mwy o dai fforddiadwy i aelwydydd digartref, yn enwedig yr aelwydydd hynny sy'n wynebu rhwystrau penodol sy'n eu hatal rhag cael lle hirdymor i fyw. Mae cysylltiad agos rhwng y gwaith hwn ac amcanion eraill megis ailddechrau defnyddio eiddo gwag a datblygu'r cynllun Ailgartrefu Cyflym.
- ✓ **Symleiddio'r Broses Gwneud Cais** – Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn archwilio ffyrdd o symleiddio'r broses i bobl wneud cais am dai cymdeithasol. Nid oes gan Gastell-nedd Port Talbot gofrestr na pholisi dyrannu cyffredin, ac felly bydd swyddogion yn mynd ati gyda

landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ystyried cyfleoedd i roi dull gweithredu a phroses ar waith ledled Castell-nedd Port Talbot ar gyfer blaenoriaethu gosodiadau cymdeithasol.

- ✓ **Rhoi'r Strategaeth Dai ar Waith** – Byddwn yn datblygu ac yn goruchwylio'r broses o roi Strategaeth Dai Leol newydd ar waith ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, a fydd yn ystyried gofynion penodol y fwrdeistref. Bydd y strategaeth hon yn amlinellu'r camau gweithredu y bydd angen i swyddogion eu cymryd er mwyn ymateb i'r meysydd a nodir yn y cynllun, er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion ei boblogaeth leol am dai nawr ac yn y dyfodol.

**Maes Blaenoriaeth Pedwar – Helpu Pobl ag Anghenion Gofal Cymdeithasol i Fyw'n Dda yn eu Cymunedau**

- ✓ **Modelau Gofal Newydd ar gyfer Pobl Hŷn** – Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Oedolion, darparwyr cymorth a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i roi amrywiaeth o fodelau llety ar waith ar gyfer ein poblogaeth sy'n heneiddio, fel y gall pobl barhau i fod yn aelodau gweithredol o'u hardal leol. Bydd y modelau hyn yn cynnwys Gofal Ychwanegol a byw â chymorth, a fydd yn arwain at ddatblygu cymunedau cynhwysol a fydd yn galluogi ein poblogaeth hŷn i gadw eu hannibyniaeth ac yn lleihau ynysigrwydd ac allgáu cymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys helpu i sefydlu datblygiadau newydd yn ogystal â gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr cymorth i ailfodelu gwasanaethau sydd eisoes ar gael fel eu bod mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion newidiol ein poblogaeth hŷn, gan gynnwys darparu mwy o amgylcheddau sy'n ystyriol o ddementia.
- ✓ **Byw'n Annibynnol ar gyfer Oedolion ag Anghenion Cymhleth** – Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n rhaglen ddatblygu er mwyn darparu tai addas sy'n galluogi pobl ag anghenion gofal cymdeithasol cymhleth i fyw mor annibynnol â phosibl ac sy'n eu helpu i gyflawni'r canlyniadau personol sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd y modelau hyn yn cynnwys fflatiau arbenigol Gofal Ychwanegol, Craidd a Chlwstwr, Byw â Chymorth a byw'n annibynnol sy'n ymgorffori technoleg gynorthwyol ac atebion clyfar. Er mwyn cyflawni ein nodau, byddwn yn gweithio gyda Phartneriaeth Gorllewin Morgannwg i wneud y gorau o'n dyraniad o'r Gronfa Tai â Gofal.

- ✓ **Addasiadau i Gartrefi Pobl ag Anableddau** – Byddwn yn helpu pobl ag anableddau i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain drwy ddarparu addasiadau. Drwy ddefnyddio'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl, sicrhau y gellir manteisio i'r eithaf ar grantiau sydd ar gael fel y Gronfa Gyfalaf ar gyfer Tai â Gofal a gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector, megis Gofal a Thrwsio, byddwn yn ymdrechu i ddarparu addasiadau amserol i bobl y mae eu hamgylchedd presennol yn peri risg i'w hannibyniaeth.
- ✓ **Galluogi Pobl i Osgoi Mynd i'r Ysbyty ac i Gael eu Rhyddhau o'r Ysbyty** – Byddwn yn archwilio sut y gallwn gefnogi ein partneriaid yn y GIG ac ym maes gofal cymdeithasol er mwyn atal pobl rhag mynd i'r ysbyty lle y gellid osgoi hynny a sicrhau y bydd pobl sy'n barod yn feddygol i adael yr ysbyty yn gallu gwneud hynny'n brydlon. Bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'r gwaith i gyflawni amcanion eraill megis darparu addasiadau a datblygu modelau gofal newydd ar gyfer ein poblogaeth hŷn. Yn ogystal â hynny, byddwn yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i greu opsiynau amgen yn lle lleoliadau cartref gofal interim a fydd yn ategu dull galluogi yn well, gan gynnwys cynyddu nifer yr Unedau Gofal Ychwanegol Cam i Lawr.
- ✓ **Cefnogi Prosesau Pontio** – Byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau y bydd pobl ifanc ag anghenion gofal cymdeithasol sy'n dod yn oedolion yn gallu cael amrywiaeth briodol o lety â chymorth yn unol â'u hanghenion unigol, fel y gallant wireddu eu potensial llawn a byw bywydau sy'n llawn boddhad. Bydd hyn yn cynnwys datblygu eiddo llety â chymorth ychwanegol a chynyddu'r amrywiaeth o fodelau gofal er mwyn lleihau dibyniaeth ar leoliadau cartref gofal. Bydd hefyd yn golygu gweithio gyda Phartneriaeth Gorllewin Morgannwg i roi prosiectau llety rhanbarthol ar waith yn unol â'r anghenion a nodir.
- ✓ **Gweithio gyda Phobl Ifanc a Phobl sy'n Gadael Gofal** – Byddwn yn helpu'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc i gyflawni ei uchelgais ar gyfer pobl sy'n gadael gofal drwy fwydo i mewn i'w Gynlluniau Llwybr a thrwy fod yn aelod o'r Grŵp Digartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc, yn ogystal â chynnig cymorth ar gyfer cyflawni ei strategaeth ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Bydd ein gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai yn ein galluogi i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer gwasanaethau wedi'u comisiynu ar gyfer digartrefedd ymhlith pobl ifanc.

Hefyd, drwy atgyfnerthu ein Tîm Opsiynau Tai, byddwn yn gallu cynnig mwy o gymorth arbenigol wedi'i dargedu er mwyn cefnogi pobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd yn seiliedig ar egwyddorion sy'n ystyriol o drawma ac amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol.

- ✓ **Cau'r Bylchau** – Rydym yn cydnabod y cysylltiad rhwng sefyllfa ansefydlog o ran tai, gan gynnwys cylchoedd o ddigartrefedd, a ffactorau ehangach sy'n gwneud unigolyn yn agored i niwed, megis iechyd meddwl, niwroamrywiaeth ac anawsterau dysgu. Ceir nifer o bobl na fyddent yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd arferol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol ond y mae angen cymorth ychwanegol arnynt o hyd er mwyn eu galluogi i ddysgu a chynnal y sgiliau y bydd eu hangen arnynt i fyw'n ddiogel ac osgoi mynd yn fwy agored i niwed. Drwy weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, byddwn yn datblygu amrywiaeth o lety arbenigol â chymorth ar gyfer pobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i fyw'n annibynnol. Bydd hyn yn cynnwys llety Symud Ymlaen, lle y caiff pobl eu helpu i ddatblygu eu sgiliau byw bob dydd er mwyn iddynt allu symud ymlaen i dai anghenion cyffredinol a llety Cam i Fyny/Cam i Lawr lle y bydd pobl yn cael lefelau wedi'u targedu o gymorth yn unol â'u hanghenion amrywiol.